# Hysbysiad Etholiad

## Etholiad Senedd Cymru ar gyfer Etholaeth Caerdydd Penarth

1. Cynhelir etholiad i enwebu Aelodau i wasanaethu yn Senedd Cymru dros etholaeth Caerdydd Penarth.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau, Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW, neu yn electronig drwy etholiadau@caerdydd.gov.uk o ddydd Gwener 27 Mawrth 2026 tan ddydd Iau 9 Ebrill 2026 4pm.

3. Gellir cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW rhwng 9am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno'n electronig isod, erbyn **4pm ar ddydd Iau 9 Ebrill 2026.**

4. Os caiff yr etholiad ei gystadlu, caiff y bleidlais ei chynnal ddydd Iau 7 Mai 2026.

5. Rhaid i geisiadau am gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos ddydd Llun 20 Ebrill 2026. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

6. Gellir talu'r blaendal o £500 fesul ymgeisydd unigol neu flaendal o £500 i'r ymgeisydd cyntaf ar y rhestr plaid, a £200 ar gyfer pob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, drwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banc o ddrôr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig. **Ffefrir taliadau drwy BACs.**

7. Rhaid i geisiadau am bleidleisiau post, neu geisiadau i ddiwygio neu ganslo pleidlais, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 21 Ebrill 2026.

8. Rhaid i geisiadau pleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026.

9. Rhaid i geisiadau pleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW erbyn 5pm ar ddydd Iau 7 Mai 2026.

## Datganiad cyflwyno'n electronig

Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.

**Drwy e-bost i etholiadau@caerdydd.gov.uk**

Rhaid cyflwyno eich papur enwebu fel atodiad a gellir ei gyflwyno ar ffurf JPEG, PDF neu TIF.

### Gwiriadau anffurfiol

Os oes angen gwiriad anffurfiol, nodwch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – SENEDD26' ym mhennawd pwnc yr e-bost.

### Cyflwyno enwebiadau

Wrth gyflwyno'r enwebiad ffurfiol, rhowch 'CYFLWYNO ENWEBIAD FFURFIOL – SENEDD26' ym mhennawd pwnc yr e-bost.

## Sylwer

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel y bo'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau'n derbyn ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau gofynnol.

Nid yw derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad am ei benderfyniad ynghylch a yw enwebiad yn ddilys ai peidio.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno enwebiadau'n electronig, cysylltwch â **etholiadau@caerdydd.gov.uk**

Dyddiedig: 27 Mawrth 2026

Paul Orders
**Swyddog Canlyniadau**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.